**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**1/10/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards (*Teams),* Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones (*Teams),* Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, (*Teams),* Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

3077 **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd.

3078 **Ymddiheuriadau: D**im

3079 **Derbyn datganiadau o fuddiant:** Dim

3080 **Cofnodion Cyfarfod Medi:** Cadarnhawyd eu cywirdeb

3081 **Materion yn codi o'r Cofnodion / materion y Clerc:**

Mae ysgrifennydd y Neuadd wedi trefnu hyfforddiant i ddefnyddwyr ar Teams a'r offer dechnegol ar 6/11/24 .

3082 **Is-banel staffio** Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu amserlen yr hysbyseb a'r cyfweliadau.

3083 **Trafnidiaeth i Gymru** Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod heddiw gyda Gethin George gan Alwyn E Jones, y Cynghorydd Alan Jones Evans a'r Clerc. Roedd yn gyfarfod buddiol iawn ac yn gyfle i bawb ddeall yr anawsterau o amserlenni, y diffyg cyllid a'r gostyngiad yn nifer y teithwyr o Lanuwchllyn ers i'r amserlen newydd ddod i rym. Gwelodd ei hun pa mor beryglus oedd cael stop wrth y garej. Roedd Mr George yn awyddus i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn y pentref, ac roedd yn barod i edrych sut fyddai'n bosib i adfer y sefyllfa. Ar ran y Cyngor addawyd pob cefnogaeth iddo yn ei ymdrechion i gael mwy o gyllid i wella'r gwasanaeth. Disgwylir ohebiaeth ganddo cyn cyfarfod Tachwedd. Cytunwyd i anfon at Mabon ap Gwynfor gan ofyn a fyddai'n well iddo fe neu'r Cyngor gysylltu gyda Chomisiynydd Pobl Hyn parthed diffyg toiledau ar y daith T3 presennol. Derbyniwyd gwybodaeth nad yw bysus yn aros am ei gilydd yn Nolgellau ac felly mae'r cysylltiad yn cael ei golli. Anogodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i drafod gyda defnyddwyr i glywed am eu profiadau.

3084 **Cynghorydd Gwynedd** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu i ddal y sawl sy'n gwaredu-slei-bach yn ardal Peniel. Mae'r broblem wrth safle biniau ar waelod ffordd Brynllech yn well erbyn hyn, ond mae[n dal i bwyso am fin ychwanegol yno ar gyfer adegau prysur. Aseswyd y sefyllfa ar ôl i'r Cyngor dynnu sylw at olwg truenus ar bont y Llan ac mae'r Swyddog yn cytuno fod y canllaw wedi rhydu mewn llefydd. Bwriedir eu

cryfhau yn y flwyddyn neu ddwy nesaf; codwyd y bont bresennol yn 1983. Mae swyddogion yn mynd i daclo'r tyfiant o gwmpas. Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith.

**3085** **is-bwyllgorau**

1. Pwyllgor Datblygu: disgwylir ymateb o gyfarfod yr wythnos diwethaf rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin parthed safle adeiladu Maes y Pandy.
2. Mynwentydd: Mae'r pantiau wedi eu llenwi a'u hadu yn y darn newydd. Cymeradwywyd talu'r anfoneb. Bydd yn gwneud gwaith torri pellach, yn cynnwys y gwrych ac ymylon y llwybrau. Cafwyd amcanbris ar gyfer codi ac ail-osod rhai cerrig sydd wedi mynd lawr. Cytunwyd i holi am bris y diwrnod o waith. Cynigodd Alwyn M Roberts gyfarfod y contractwyr ar y safle; gellid gosod yn wastad yn hytrach na cheisio ail-godi.
3. Bioamrywiaeth: Mae'r ddwy goeden pîn yn y fynwent wedi eu cwympo gan Parc Cenedlaethol Eryri. Gobeithir cychwyn y gwaith yn y goedlan yn Nhachwedd os bydd cyllid Parc Cenedlaethol Eryri yn caniatáu. Y flwyddyn nesaf bydd disgyblion yr ysgol yn cael eu cynnwys.
4. Nadolig: Yn cynnig 16/12/24 (pentref) a 17/12/24 (y wlad) ar gyfer Sion Corn. Cytunwyd i brynu'r anrhegion ac yn y blaen fel arfer.
5. Asedau: atgoffwyd pob pwyllgor i ystyried eu hanghenion cyllid er mwyn i'r Is-bwyllgor cyllid lunio'r gyllideb. Mae angen diogelu'r meinciau pren cyn y gaeaf.
6. Cyllid: bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod cyn hir.

**3086** **Materion Ariannol:** Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y SAC a diolchwyd yn gynnes iawn iddi am ei gwaith gofalus a chymen ar hyd yr 20 mlynedd diwethaf. Cymeradwywyd taliadau'r mis:

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc | |
| Cyflog SAC a'r Fynwent (6 mis) | |
| Glanhau toiledau | |
| CThEF | 294.00 |
| CCF -nwyddau glanhau | 66.80 |
| Cludiant gefeillio (NHJ) | 74.10 |
| Torri gwair y fynwent | 490.00 |
| Trin y llwybrau | 450.00 |

**3087** **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Disgwylir ymateb i geisiadau am gyllid i arbed ynni a gwella'r adeilad. Trefniadau parcio yn debygol o fod yn broses hir. Cafwyd cyfarfod gyda swyddog o'r Eglwys yng Nghymru a disgwylir gwybodaeth bellach. Mae llawer o waith diogelu wedi ei wneud yn ddiweddar gan yr Eglwys yng Nghymru.

**3088** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Disgwylir symud ymlaen gyda chyllid i wella Canolfan Bro Tegid. Trefnir Gŵyl Fwyd ar ddiwrnod Ffair. Cychwynnodd y Comisiynydd Pobl Hyn ar ei gwaith yng Nghanolfan Tegid heddiw.

**3089** **Ceisiadau cynllunio:** Cymeradwywyd Cais NP5/71/477E Gwersyll yr Urdd Glan Llyn: Gosod unedau pwmp gwres ffynhonnell aer awyr agored newydd ac awyrellau echdynnu/mewnbynnu aer yn gysylltiedig â gosodiadau adfer gwres awyru mecanyddol ac adeiladu grisiau allanol a rhodfa uchel i ffurfio mynediad llawr cyntaf newydd i'r adeilad.

**3090** **Gohebiaeth:**

i. Cyngor Gwynedd: Adolygu mannau gorsafoedd pleidleisio – cytunwyd fod y trefniadau presennol yn dderbyniol.
ii. Cyngor Gwynedd: Digwyddiad Byw'n Dda, Byw'n Iach, Porthmadog 7/10/24 (10.00am tan 3.00pm) ac ADRA ar daith
iii. Parc Cenedlaethol Eryri Awyr Dywyll: Mae Elin Smith yn trefnu cyfarfod ar gyfer y Cyngor a'r gymuned, yn ddibynnol ar argaeledd y Neuadd
iv. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn gwybodaeth am Record Byd hyfforddi CPR 10/10/24
v. Un Llais Cymru: Cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ardal Blynyddol 2/10/24 (Zoom)
vi. Un Llais Cymru: Nododd Huw Antur cyfarfod parthed rôl y sector cynghorau cymuned 23/10/24 (Zoom a Senedd 10.30-12.00)
vii. Trafodwyd cais i osod mainc er cof a chytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn cael amser i ystyried safleoedd derbyniol.
viii. Clwb Hoci Y Bala – cytunwyd i glustnodi £100 i'w dalu pan fydd y cais wedi ei gymeradwyo.

**3091** **Materion lleol y Cynghorwyr:** Cytunodd y Cynghorydd Alan Jones Evans anfon llun at y sawl sy'n edrych mewn i or-dyfiant yr helygen o flaen y meinciau ar dir y Cyngor wrth y groesffordd.

Mae angen sylw ar ffyrdd Cynllwyd a Cwm Croes, ac fe wnaeth y Cynghorydd addo tynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn.

Trafodwyd eto y peryglon ar waelod ffordd y Prys. Cytunodd y Cynghorydd Alan Jones Evans geisio eto i gael dwy linell wen.

**3092** **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**: 5/11/24 yn y Neuadd Bentref

*Amser gorffen: 8.50pm*

Arwyddwyd…………………………………(Cadeirydd) ____/____/______……………………………(Clerc) 